# PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 19 GORFFENNAF 2023

## PWNC

**DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2022/23**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

- **Derbyn llythyr Archwilio Cymru ynghylch Datganiad Blynyddol y PPC 2022/23**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Archwiliedig ar gyfer 2022/23**
- **Nodi'r Datganiad o Gyfrifon llawn Heb ei Archwilio ar gyfer 2022/23**

## RHESYMAU:

Mae angen cwblhau Datganiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Mae adrannau Datganiadau Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Datganiad Blynyddol wedi’u paratoi gan yr Awdurdod Lletya ac mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac amgaeir eu llythyr. Mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi llunio Datganiad o Gyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2022/23. Mae hwn er gwybodaeth yn unig ac nid oes angen iddo gael ei archwilio.



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
| --- | --- | --- |
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Caerfyrddin** | **E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 19 GORFFENNAF 2023

**DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2022/23**

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Ar gyfer cydbwyllgorau ag incwm a gwariant sy’n is na £2.5 miliwn, rhaid i gyfrifon gael eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol. Costau Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2022/23 yw £1,264m.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei rannu’n adrannau fel a ganlyn:

1. Datganiad Cyfrifyddu 2022/23 – gan gynnwys datganiad o incwm a gwariant / derbynebau a thaliadau a datganiad o falansau
2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol
3. Cymeradwyaeth ac ardystiad y pwyllgor
4. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol / Cadarnhau Archwiliad Mewnol

Mae adrannau 1 a 2 uchod wedi cael eu cwblhau gan yr Awdurdod Lletya yn unol ag arferion dilys fel a nodir yn y Canllaw i Ymarferwyr. Mae adran 4 wedi cael ei chwblhau gan Adran Archwilio Mewnol yr Awdurdod Lletya. Mae'r Datganiad Blynyddol wedi cael ei harchwilio gan Archwilio Cymru.

Mae'r Awdurdod Lletya hefyd wedi paratoi Datganiad o Gyfrifon llawn i Bartneriaeth Pensiynau Cymru ar gyfer 2022/23. Nid yw'r Datganiad yn ofyniad statudol ac ni fydd yn cael ei archwilio. Mae wedi cael ei baratoi er gwybodaeth yn unig, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau<br>**DIM** | Cyfreithiol<br>**OES** | Cyllid<br>**OES** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithiol**<br>Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. | | | | |
| **Cyllid**<br>Cost net gweithgareddau Partneriaeth Pensiynau Cymru oedd £1,264m, sef tâl a gafodd ei ailgodi i'r wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma. |

| **Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod y Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld / DOLEN GWEFAN** |
| Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 | | Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin |